Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod 25 Mai 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Julian Thompson Hill

Awdur yr adroddiad Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Adroddiad Ariannol (Sefyllfa Ariannol Derfynol 2020/21)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy'r flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2020/21 yn cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol erbyn 15 Mehefin. Yna, ym mis Medi, cyflwynir y cyfrifon wedi'u harchwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod am y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo'r dull arfaethedig o drin balansau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Aelodau i nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2020/21.

3.2 Aelodau i gymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3.

3.3 Aelodau i nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd fel y nodir yn Atodiad 4.

4. Manylion yr adroddiad

Manylir ar ffigurau'r Sefyllfa Refeniw Derfynol yn Atodiad 1, ynghyd â'r driniaeth arfaethedig o falansau gwasanaeth diwedd blwyddyn. Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys tanwariant o £7.058m gydag ysgolion) yn danwariant o £9.457m.

Roedd cyllideb 2020/21 yn gofyn am ddod o hyd i a chytuno ar arbedion ac arbedion effeithlonrwydd o £4.448m fel y manylir isod:

- Nodwyd arbedion corfforaethol yn ymwneud â'r adolygiad actiwaraidd pob tair blynedd o Gronfa Bensiynau Clwyd (£2m)
- Arbedion ysgolion o 1% (£0.692m)
- Arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau (£1.756m)

Mae'r arbedion corfforaethol eisoes wedi'u cyflawni a dirprwywyd arbedion yr ysgolion i'r cyrff llywodraethu i'w monitro a'u cyflawni. Ar ben hyn, dynodwyd £1.086m o'r arbedion gwasanaeth yn wreiddiol fel arbedion sydd eisoes wedi'u gweithredu.

Effaith y Coronafeirws - Mae'r strategaeth o weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau cyllid sylweddol a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol. Mae system o hawliadau gwariant misol a hawliadau colli incwm chwarterol wedi'i sefydlu. Dylai cyhoeddiadau ariannu diweddar sicrhau fod pwysau Covid yn 2020/21 yn cael eu diogelu, wrth nodi hefyd y bydd cyllid yn parhau i fod ar gael, os oes angen, am o leiaf y 6 mis cyntaf yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn £19m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac, oherwydd amseriad yr hawliadau terfynol am grantiau (dyddiad cau i'w cyflwyno 14 Mai), mae hawliadau gwerth £2.7m heb eu derbyn hyd yma. Mae'r sefyllfa derfynol yn tybio y bydd y symiau hyn yn cael eu talu'n llawn pan fydd Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i adolygu'r hawliadau. Bydd cyfanswm gwerth y cymorth ariannol uniongyrchol o'r ddwy ffynhonnell grant hyn yn unig yn £21.7m os bydd yr hawliadau terfynol yn cael eu talu'n llawn.

Ysgolion – Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o ychydig dros £2.9m yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau gan Lywodraeth Cymru). Bydd

cyfanswm balans ysgolion o £5.670m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2021/22, sy'n cynrychioli cynnydd o £7.058m yn y balansau diffyg a ddygwyd ymlaen i 2020/21, sef £1.388m.

Mae'r symudiad ers y llynedd yn ymwneud yn bennaf â derbyn cyllid untro ac arbedion untro gan fod ysgolion wedi bod ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn ac, yn benodol, derbyniwyd nifer o grantiau mawr ddiwedd mis Mawrth. Er bod hyn i'w groesawu'n fawr, dylid cofio natur unigryw y cyllid untro hwn. Mae **Atodiad 3** yn rhoi manylion y balansau fesul ysgol ac mae hefyd yn nodi mai'r balans cyffredinol fel canran o gyllideb 2020/21 yw 7.2%, ac mae'n 7% fel canran o'r gyllideb ar gyfer 2021/22. Mae llawer o'r cyllid wedi'i glustnodi i gael ei ddefnyddio yn ystod 2021/22 er mwyn sicrhau y gall ysgolion a disgyblion ddod at eu hunain yn dilyn effaith pandemig Covid.

Cyllidebau Corfforaethol – Mae prif elfennau'r tanwariant o £1.874m yn ymwneud â nifer o ffactorau yr adroddwyd yn eu cylch wrth y Cabinet drwy'r flwyddyn. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi ei gadarnhau i dalu am effaith blwyddyn lawn Covid ar Incwm o'r Dreth Gyngor a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a fyddai'n caniatáu ar gyfer rhyddhau arian wrth gefn. Fodd bynnag, mae mwyafrif y tanwariant yn ymwneud â dyrannu cyllid (£1.663m) a gafwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n cydnabod pwysau ymateb i Covid ar y Cyngor yn gyffredinol. Dyfarnwyd y cyllid yn ystod y flwyddyn er mwyn helpu i dalu am orwariant nad yw'n cael ei dalu'n uniongyrchol gan Grantiau Covid eraill Llywodraeth Cymru, ac mae hyn wedi galluogi gwasanaethau oedd ag ymrwymiadau'n mynd ymlaen i 2021/22 i roi cynigion gerbron i ddwyn eu tanwariant ymlaen i dalu'r costau hyn. Er ein bod wedi cynnwys yn y gyllideb y cyfraniad ariannol o'r Gronfa Wrth Gefn i Liniaru'r Gyllideb sef £0.685m ac wedi gosod cronfeydd wrth gefn gwerth £0.200m yr un ar gyfer y prosiectau Di-Garbon a Chlefyd Coed Ynn, rydym wedi llwyddo i roi'r tanwariant net o £0.721m yn ôl yn y gronfa wrth gefn, sydd nawr yn £1.7m a bydd yn cael ei defnyddio er mwyn helpu i ariannu'r Cynllun Buddsoddi i Arbed y cytunwyd arno fel rhan o broses y gyllideb ar gyfer 2022/23, y pwysau yn 2021/22 neu er mwyn helpu i fantoli'r gyllideb yn y dyfodol.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn gwasanaethau a'r cyllid corfforaethol sydd ar gael, cynigir bod y gwasanaethau yn dwyn ymlaen y tanwariant net a restrir fel Balansau Gwasanaeth Ymrwymedig yn **Atodiad 1** er mwyn helpu i gyflawni strategaeth cyllideb 2021/22 a bodloni'r ymrwymiadau presennol. Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cynigion y gwasanaethau.

Mae **Atodiad 4** yn rhoi manylion llawn y trosglwyddiadau i mewn i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac allan ohonynt. Mae'r rhan helaeth o'r symudiadau wedi'u cynnwys yn y gyllideb neu wedi'u cymeradwyo yn sgil adroddiadau monitro blaenorol i'r Cabinet. Dylid nodi bod yr holl gronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2020/21 oedd £208.302m. Y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau oedd tanwariant net o £2.705m (2.3% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y meysydd hynny). Gan ystyried cyllid ac ysgolion, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn danwariant o £9.457m (4.5% o'r gyllideb refeniw net). Mae ffigur y gorwariant net yn cynnwys £7.058m o danwariant mewn ysgolion, sy'n cael ei ddwyn ymlaen ar wahân. Os bydd gwasanaethau wedi tynnu sylw at ymrwymiadau gwariant dilys, cynigir bod y gwasanaethau hynny yn trosglwyddo'r balans net ymlaen i 2021/22. Bydd y sefyllfa ymhob gwasanaeth a'r defnydd a fwriedir o falansau gwasanaeth a ddygwyd ymlaen yn cael eu hadolygu yn ystod 2021/22.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor eu cyflwyno i'r Cyngor ar 21 Ionawr.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chyfarfodydd Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Eleni hefyd, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a byddwn yn datblygu ar y profiad yn y blynyddoedd i ddod.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n galonogol fod y Strategaeth Adferiad Ariannol Covid a gymeradwywyd gan y Cabinet ym Mai 2020 wedi darparu cynllun cadarn ar gyfer ymateb y Cyngor. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd y cymorth ariannol uniongyrchol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn fwy na £21.7m, sy'n dyst i werth gweithio mewn partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa iach i wynebu'r heriau ariannol sy'n debygol o'i wynebu yn y dyfodol.

Er bod balansau ysgolion wedi cynyddu'r flwyddyn ariannol hon, mae hyn yn ymwneud yn bennaf â derbyn cyllid untro ac arbedion untro gan fod ysgolion wedi bod ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn a bydd angen monitro sefyllfa'r ysgolion yn fanwl wrth symud ymlaen. Mae nifer fechan o ysgolion yn parhau i fod mewn trafferthion ariannol a bydd Addysg a Chyllid yn parhau i weithio'n agos iawn â'r ysgolion hynny er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau cadarn, a bydd prif ac uwch swyddogion yn yr adrannau Addysg a Chyllid yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gamau unioni os bydd angen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae hwn yn parhau i fod yn gyfnod ariannol heriol ac mae ansicrwydd yn dal i fodoli ynghylch effaith barhaus Covid 19, Brexit a strategaeth ariannol llywodraeth y DU wrth ymdrin â'r effaith ariannol hirdymor ar gyllid cyhoeddus yn yr ymateb i Covid. Er bod y rhagolygon ariannol yn ymddangos yn ansicr, mae ein sefyllfa ariannol yn iach a chafodd

proses gadarn ar gyfer y gyllideb am 3/5 mlynedd ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y Tîm Arwain Strategol, y Tîm Gweithredol Corfforaethol, Cabinet a chraffwyd arnynt gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.